# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Penycae Childcare**

**Ysgol Pen-y-cae**
**Bryn Copperas, Pen-y-cae**
**Wrecsam**
**LL14 2SD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroc heb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

09/01/2020

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Penycae Childcare (gofal dydd llawn) wedi'i gofrestru i ofalu am 19 o blant sy'n mynychu'r cylch chwarae, y feithrinfa a mwy a'r sesiynau ar ôl ysgol yn Ysgol Pen-y-cae, Pen-y-cae, Wrecsam. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu rhwng 08:00 a 18:00 bob dydd yn ystod y tymor. Timothy Newbould yw'r person cofrestredig, ac Angela Morgan a Sandra Williams yw'r personau â chyfrifoldeb bob dydd. Mae lleoedd wedi'u hariannu ar gael i blant sy'n gymwys ar gyfer Hawl Bore Oes a'r cynnig gofal plant 30 awr. Saesneg yw'r brif iaith gyfathrebu. Nid yw'r gwasanaeth yn darparu 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arwain a Rheoli** | **Digonol** |

### 1. Asesiad cyffredinol

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r plant yn cael gofal da yn y gwasanaeth hwn ac mae ganddynt lais cryf. Maent yn magu hyder ac yn datblygu'n llwyddiannus. Mae'r plant yn cael gofal gan ymarferwyr profiadol, galluog ac ymroddedig sy'n darparu gweithgareddau ysgogol ar eu cyfer ac sy'n eu cadw'n ddiogel. Mae'r amgylchedd yn addas ar gyfer plant, yn ddiogel ac wedi'i gynllunio'n dda, gyda digonedd o deganau a chyfarpar. Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth ac mae hyn yn sicrhau lefel dda o ofal i'r plant gan dîm ymroddedig o ymarferwyr. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr wedi sicrhau bod systemau ar waith i fonitro ac adolygu'r gwasanaeth, nid oes gan bob ymarferydd ffeil staff ac nid ydynt wedi cael cynnig cael arfarniad. Mae partneriaethau llwyddiannus â'r rhieni a'r ysgol, sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol a chyson i'r plant.

### 2. Gwelliannau

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth ailgofrestru ym mis Tachwedd 2018.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi dweud wrth y person cofrestredig fod angen gwneud gwelliannau, gan nad oedd yn cydymffurfio mewn perthynas â'r canlynol: cael digon o bersonau â chyfrifoldeb wedi'u penodi yn y gwasanaeth (rheoliad 7); sefydlu a chynnal system i fonitro ac adolygu'r gwasanaeth (rheoliad 16); trefnu dogfenau i ddangos tystiolaeth o addasrwydd yr ymarferwyr yn ffeiliau'r staff (rheoliad 28) ac arfarnu ymarferwyr yn flynyddol (rheoliad 29) er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Nid oes hysbysiadau wedi cael eu cyflwyno ar yr achlysur hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Rydym yn disgwyl i'r person cofrestredig gymryd camau i unioni'r gofynion hyn ac ystyrir y materion hyn eto yn yr arolygiad nesaf.

Rydym hefyd wedi gwneud dau argymhelliad a nodir ar ddiwedd yr adroddiad.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Mae gan y plant lais cryf, maent yn mynegi eu hunain yn dda ac yn gwneud dewisiadau mewn ffordd hyderus. Maent yn ffynnu am eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu, ac felly, maent yn dechrau dysgu sgiliau cymdeithasol gwerthfawr yn llwyddiannus. Mae'r plant yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig, ac maent yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau ysgogol. Maent yn dysgu amrywiaeth o sgiliau ym mhob maes dysgu a thrwy weithgareddau hamdden ac, o ganlyniad, maent yn datblygu'n dda ac yn dod yn annibynnol.

### Ein canfyddiadau

Gwrandewir ar y plant a chaiff eu dewisiadau eu parchu. Er enghraifft, roedd y plant yn gallu dilyn eu diddordebau eu hunain wrth baentio a gwnaeth rhai ohonynt droi gweithgaredd printio â thatws yn weithgaredd paentio â dwylo, a gwrandawyd ar blentyn nad oedd am gau ei sip yr holl ffordd a gwrandawyd arno. Yn ystod amser cylch, roedd y plant yn defnyddio cardiau llun er mwyn dangos i eraill eu dewis o gân ac roeddent yn gallu canu ar eu pen eu hunain os oeddent yn gofyn am wneud hynny. Mae'r plant yn gallu dylanwadu ar themâu, gan eu bod wedi cael gosod gwrthrychau mewn bag nwyddau ar ddechrau'r tymor er mwyn dangos eu diddordebau i eraill a sôn wrthynt amdanynt, a, lle y bo'n bosibl, roedd yr eitemau hyn yn cael eu cynnwys mewn themâu ac arddangosfeydd. Roedd y plant yn hyderus ac yn mynegi eu hunain yn dda, yn enwedig yn y sesiwn ar ôl ysgol lle, er enghraifft roedd y plant yn dewis pa ddeunyddiau celf a chrefft roedd eu hangen arnynt a pham, a pha fideo yr hoffent ei wylio wrth ymlacio.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd y plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Gwnaeth y plant cyn ysgol ymdopi'n dda wrth ffarwelio â'u rhieni, setlo'n dda a dangos bodlonrwydd drwy gydol y sesiynau a welsom. Rhoddwyd digon o sylw, sicrwydd a chysur i'r plant yn y sesiwn ar ôl ysgol, a oedd yn poeni am bethau a ddigwyddodd yn yr ysgol. Roedd y plant yn hyderus ac roedd y staff yn eu helpu'n aml, er enghraifft wrth wisgo i fyny. Roedd y plant yn gwybod ble roedd eu pegiau ac roedd lluniau o'r plant ac arddangosfeydd o'u gwaith yn rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt. Wrth i'r rhieni gasglu eu plant, roedd gweddill y plant yn canu cân hwyl fawr i'r unigolion, gan chwifio arnynt wrth iddynt adael. Ymatebodd pob unigolyn drwy chwifio nôl a rhoi gwên a oedd yn dangos eu bod yn teimlo'n fodlon a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Roedd y plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a gyda'r rhai a oedd yn gofalu amdanynt gan fod y cymharebau staffio'n dda iawn. Roedd digon o gyfleoedd i'r plant ryngweithio â'i gilydd yn unigol. Clywsom ddigonedd o chwerthin a gwelsom lawer o ryngweithio cadarnhaol, er enghraifft roedd y plant wrth eu bodd â'r pyped aderyn mewn blwch a ddefnyddir i'w canmol am wrando'n dda, ac ymatebodd y plant yn dda i'r caneuon yn cael eu canu'n rheolaidd pan oedd hi'n amser tacluso ac amser cylch. Roedd y plant yn dangos cwrteisi ac yn defnyddio geiriau Cymraeg er mwyn diolch i eraill.

Roedd y plant yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig, ac roeddent yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored. Roeddent yn ymddiddori yn eu chwarae a'u dysgu ac yn llawn cymhelliant, gyda rhai o'r gweithgareddau'n cael eu harwain gan oedolion, megis printio â thatws, canu ac adrodd straeon. Dewisodd y plant chwarae â'u hoff eitemau'n hapus, megis y bocsys cardfwrdd mawr a ddefnyddiwyd ganddynt i adeiladu castell ar gyfer eu chwarae dychmygus. Roedd y plant wrth eu bodd yn clywed stori a gafodd ei hadrodd yn dda, ac roeddent yn dysgu geiriau newydd megis '*mask*' ac yn eu defnyddio yng nghyd-destun y stori wrth iddi gael ei hadrodd.  Roeddent yn ymarfer geiriau Cymraeg yn aml drwy ganeuon a rhigymau. Roedd y plant yn awyddus i rannu eu gwaith ag eraill gan ddangos eu lluniau, eu heitemau crefft, eu gwaith paentio a'u modelau toes gyda balchder.

Roedd y plant yn cael amrywiaeth dda o brofiadau gan gynnwys cyfleoedd chwarae a ddewiswyd yn rhydd a chyfleoedd wedi'u harwain ganddynt eu hunain a oedd yn eu galluogi i ddatblygu sgiliau annibyniaeth. Roedd y plant cyn ysgol yn dysgu sut i wisgo eu ffedogau wrth baentio a'u cotiau pan oeddent yn mynd allan i'r awyr agored. Roedd pob un o'r plant yn helpu eu hunain i deganau ac adnoddau o'r ardaloedd chwarae, ac roeddent yn gallu eu rhoi nhw i gyd i gadw pan ofynnwyd iddynt wneud hynny. Roeddent hefyd yn casglu eu cadeiriau eu hunain ar gyfer amser cylch, yn ffurfio cylch ac yn eistedd yn dawel ymlaen llaw. Os oedd angen cymorth ar y plant, er enghraifft i wisgo'u hetiau a'u menig, byddai'r staff yn ei ddarparu. Roedd y plant hŷn yn annibynnol ac yn hyderus.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 2. Gofal a Datblygiad Da

### Crynodeb

Mae'r ymarferwyr yn creu awyrgylch gofalgar a diogel, ac yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach yn llwyddiannus drwy roi polisïau a gweithdrefnau cytunedig ar waith. Maent yn rheoli'r rhyngweithio'n dda, yn fodelau rôl da ac yn defnyddio strategaethau cadarnhaol ac effeithiol. Mae'r ymarferwyr proffesiynol ac ymroddedig yn hybu dysgu'r plant drwy chwarae, gan ddarparu gweithgareddau ysgogol. Maent yn diwallu anghenion unigol y plant, gan gynnwys anghenion ychwanegol a meddygol er mwyn sicrhau eu llesiant.

### Ein canfyddiadau

Roedd yr ymarferwyr yn creu awyrgylch hapus, yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau ac yn eu rhoi ar waith er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Roedd y cofnodion presenoldeb wedi galluogi'r ymarferwyr i gynllunio ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod nifer digonol o staff ar gael. Roedd ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant diogelu a chymwysterau cymorth cyntaf gydag aelodau o staff yr ysgol. Roedd ffurflenni damweiniau yn dangos yr ymdriniwyd â digwyddiadau'n briodol a bod y rhieni wedi cael gwybod amdanynt ac wedi llofnodi'r cofnodion. Roedd ffyrdd iach o fyw yn cael eu hyrwyddo wrth i'r ymarferwyr sicrhau bod y plant yn mwynhau manteision chwarae yn yr awyr agored yn ddyddiol ac roeddent yn rhoi cyfleoedd i'r plant frwsio eu dannedd. Roeddent hefyd yn darparu byrbrydau iachus. Roedd y plant a oedd yn mynychu dros amser cinio yn dod â'u pecynnau cinio eu hunain.  Roedd trafodaethau a chofnodion o ymarferion tân rheolaidd yn dangos bod yr ymarferwyr a'r plant yn gwybod sut i adael y safle. Mae'r ymarferwyr yn cael budd o weithio'n agos gyda'r ysgol a'i staff er mwyn cadw'r plant yn ddiogel.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd yr ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio'r plant yn llwyddiannus drwy ddefnyddio strategaethau effeithiol, a rhoi esboniadau syml, gan helpu'r plant i gydweithredu a dysgu sgiliau cymdeithasol. Er enghraifft, roedd yr ymarferwyr yn defnyddio sticeri i ganmol y plant yn ymateb i Ticw'r Arth yn Gymraeg. Roedd pypedau anifeiliaid, megis '*Birdie'* a '*Lola the tiger'* yn cael eu defnyddio i ganmol y plant a'u tawelu yn ystod amser cylch. Dywedodd yr ymarferwyr wrthym mai'r ysgol ac athrawon ymgynghorol hawl bore oes a oedd wedi rhannu'r strategaethau hyn â nhw. Roedd yr ymarferwyr yn ymgysylltu'n dda â grwpiau bach o blant a phlant unigol, er enghraifft drwy chwarae ochr yn ochr â nhw a bwyta eu byrbrydau a'u cinio gyda'r plant, i'w gwneud yn achlysuron cymdeithasol. Roedd yr ymarferwyr yn fodelau rôl da ac yn annog y plant i fod yn gwrtais ac yn gymwynasgar.

Roedd yr ymarferwyr yn hybu dysgu'r plant yn gyson drwy ddarparu amgylchedd chwarae addas a thrwy ddiwallu anghenion unigol, a nodir yn y ffurflenni cofrestru a gwblhawyd gan y rhieni, a thrwy gynllunio i ddiwallu anghenion yn dilyn arsylwadau ac asesiadau anffurfiol. Roeddent yn darparu awyrgylch gofalgar a oedd yn meithrin y plant, ac yn rhoi gofal ymatebol yn effeithiol. Roedd yr ymarferwyr yn mynd ati'n rhagweithiol i ddatblygu profiadau chwarae'r plant. Roeddent yn cynllunio profiadau chwarae a dysgu ystyrlon ac ysgogol, megis chwarae dychmygus â darnau rhydd, pobi a chyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored

yn rheolaidd. Roeddent yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn effeithiol ac roedd y plant yn meithrin ymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill drwy ddathlu digwyddiadau tymhorol a diwrnodau arbennig.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 3. Yr Amgylchedd — Da

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd glân a diogel, ac mae asesiadau risg ysgrifenedig yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn gwybod sut i gadw'r plant yn ddiogel. Mae'r plant yn cael eu goruchwylio'n dda, dan do ac yn yr awyr agored, gan ymarferwyr gwybodus. Mae'r amgylchedd yn addas iawn, gan ei fod yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn addas ar gyfer oedran y plant. Mae ansawdd y teganau, gemau a chyfarpar hamdden yn dda ac mae'r ymarferwyr yn eu defnyddio i greu amgylchedd diddorol ac ysgogol i'r plant.

### Ein canfyddiadau

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda dan do ac yn yr awyr agored. Roedd mynedfa ddiogel wedi'i chloi a oedd yn galluogi'r ymarferwyr i weld pwy oedd y tu allan.  Mae'n ofynnol i'r sawl sy'n ymweld â'r ysgol fewngofnodi yn y dderbynfa a chânt eu hebrwng i'r anecs. Mae'r rhieni'n defnyddio mynedfa wrth ochr yr ardal chwarae a gaiff ei ddatgloi ar adeg casglu'r plant. Roedd cofnod yn cael ei gadw o'r holl ymwelwyr gan atal mynediad diawdurdod, a gofynnwyd i ni ddangos ein bathodynnau adnabod wrth i ni gyrraedd. Roedd pob ardal dan do ac yn yr awyr agored yn rhydd rhag peryglon ac roedd asesiadau risg cynhwysfawr a gwiriadau cyfredol ar gyfer y cyfarpar ar waith ar gyfer y ddarpariaeth a'r adeilad fel rhan o amgylchedd yr ysgol. Roedd ffôn ar gael i'r ymarferwyr ei ddefnyddio mewn argyfwng ac er mwyn iddynt gysylltu ag aelodau o'r staff yn yr ysgol. Roedd y safle mewn cyflwr da ac roedd glanhawyr yr ysgol yn galluogi'r ymarferwyr i dreulio eu hamser yn gofalu am y plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd yr arweinwyr yn darparu amgylchedd diddorol i'r plant sy'n addas ar eu cyfer. Roedd y brif ystafell chwarae yn fawr ac roedd yr ardaloedd chwarae a dysgu wedi'u gosod ar lefel taldra'r plant er mwyn iddynt eu defnyddio'n hawdd. Roedd arwynebau'r llawr yn addas ar gyfer gweithgareddau chwarae blêr a gweithgareddau llawr. Roedd cadeiriau a byrddau cadarn maint plant yn cael eu defnyddio dan do ac arddangoswyd gwaith y plant yn ddeniadol, gan roi ymdeimlad o berthyn iddynt. Roedd ardal awyr agored yr ysgol yn cael ei defnyddio i gynnal gweithgareddau ysgogol a diddorol. Roedd cyfleusterau addas ar gael i bawb a gallai'r plant ddefnyddio'r toiledau'n annibynnol. Roedd ardal paratoi bwyd/cegin wedi'i lleoli yn yr ystafell chwarae.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn gallu mwynhau ystod eang o adnoddau chwarae a dysgu ysgogol o ansawdd da. Roedd digon o weithgareddau a theganau ar gael er mwyn sicrhau bod gan y plant ddewis diddorol. Roedd yr holl deganau a gemau yn lân, yn gweithio'n dda ac roedd digon o gyfleusterau storio wedi'u trefnu'n dda. Roedd yr arweinwyr wedi darparu llyfrau a theganau i gynrychioli'r gymdeithas ehangach a hyrwyddo cydraddoldeb.

## 4. Arwain a Rheoli **Digonol**

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn brofiadol ac yn wybodus. Fodd bynnag, byddai'r gwasanaeth yn cael budd o gael mwy o bersonau â chyfrifoldeb y mae'n ofynnol iddynt fod yn bresennol yn y gwasanaeth yn ystod ei oriau gweithredu. Nid yw'r arweinwyr wedi cwblhau hunanwerthusiad o'r gwasanaeth o fewn blwyddyn i'r cofrestriad, ond byddant yn cwblhau datganiad hunanwerthuso ar-lein cyn mis Chwefror 2020. Mae'r ymarferwyr yn cael eu rheoli'n gymharol dda, gan fod yr arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cael digon o hyfforddiant, cymorth ac adnoddau yn barhaus. Nid yw pob ymarferydd wedi cael budd o gael arfarniad blynyddol, ac nid oes gan bob ymarferydd ffeil staff. Mae'r partneriaethau â'r rhieni a'r ysgol yn dda ac yn adlewyrchu ethos cryf o barch a gwerth tuag at eraill.

### Ein canfyddiadau

Mae gan yr arweinwyr ymdeimlad o ddiben a disgwyliadau er mwyn hybu canlyniadau da i'r plant. Mae'r person â chyfrifoldeb a oedd yn bresennol yn effeithiol ac, o ganlyniad, gwelsom fod y gweithlu yn hapus, yn gymwys ac yn cael cymorth da. Fodd bynnag, gan nad yw'r ymarferydd hwn ar gael yn llawn amser, gwelsom fod ymarferwyr cymwysedig yn ymgymryd â rôl y person â chyfrifoldeb, ond mae angen iddynt gael eu henwebu'n ffurfiol. Cawsom sicrwydd y byddai'r camau priodol yn cael eu cymryd, felly ni chyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio. Gwelsom ymarfer cyson ym mhob rhan o'r gwasanaeth, ac roedd yr ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm. Roedd yr ymarferwyr medrus yn gwybod beth oedd ei angen ar y plant gan ddangos amynedd a charedigrwydd at bob plentyn. Gwnaethom argymell y dylai'r arweinwyr ddiffinio rolau a chyfrifoldebau'r ymarferwyr o ran addysgu a dysgu a chynnal gweithgareddau hamdden. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr ar gael i gyflenwi absenoldebau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn adnabod eu gwasanaeth yn dda ac yn hybu diwylliant effeithiol a chadarnhaol o wella ymysg ei gilydd. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cwblhau adolygiad nac adroddiad blynyddol o ansawdd y gofal eto, ac nid ydynt ychwaith wedi rhoi systemau ar waith i fonitro ac adolygu'r gwasanaeth drwy gasglu safbwyntiau a barn yr ymarferwyr, y plant a'r rhieni. Cofrestrwyd y gwasanaeth ym mis Tachwedd 2018. Mae hunanwerthusiad at ddibenion y ddarpariaeth addysg gynnar a chynllun gweithredu wedi'i gwblhau ond nid yw hyn yn berthnasol i'r feithrinfa a mwy na'r sesiynau gofal a ddarperir y tu allan i'r ysgol. Rhagwelir y bydd yr arweinwyr yn cwblhau hunanasesiad o'r gwasanaeth ar-lein (SASS) ym mis Chwefror 2020, felly ni chyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio mewn perthynas â thorri'r rheoliadau y tro hwn.

Gwelsom fod yr ymarferwyr ymrwymedig yn adnabod y plant yn dda a oedd yn eu galluogi i ddiwallu eu hanghenion yn brydlon ac yn effeithiol, ac roedd eu hagwedd tuag at y plant yn dyner ac yn garedig. Hefyd, gwnaethom siarad â'r ymarferwyr, a gadarnhaodd eu bod wedi cael profiad da yn ystod eu cyflogaeth. Roedd y dogfennau yn ffeiliau'r ymarferwyr yn dangos bod systemau ar waith ar gyfer proses recriwtio gadarn a thrylwyr er mwyn sicrhau bod pawb a gyflogwyd yn addas, er enghraifft, mae gan bob un ohonynt wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ac maent wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf, amddiffyn plant a hyfforddiant ychwanegol,

megis hyfforddiant hylendid bwyd sylfaenol a hyfforddiant addysg/y cyfnod sylfaen. Fodd bynnag, roedd un ymarferydd ac un gwirfoddolwr nad oedd ganddynt ffeil staff ar gyfer y gwasanaeth, ond cawsom sicrwydd gan yr ymarferwyr fod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chadw gan y person cofrestredig yn ffeiliau staff yr ysgol. Nid oedd gan bob ymarferydd dystiolaeth o arfarniadau blynyddol. Gwnaethom hysbysu'r person cofrestredig o'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn bodloni'r gofynion mewn perthynas â hyn.

Roedd y cydberthnasau â'r rhieni yn dda. Roedd yr arweinwyr yn cyfathrebu â nhw'n rheolaidd ac roedden nhw'n siarad â'r ymarferwyr yn agored. Roedd y gwasanaeth yn rhoi amser penodol i'r rhieni gasglu eu plant ac roedd y broses o gyfnewid gwybodaeth yn dda. Mae gan y gwasanaeth gydberthynas dda iawn â'r ysgol gan mai'r pennaeth yw'r person cofrestredig ac mae'n ymrwymedig i'r grŵp ac yn cynnig cymorth i'r ymarferwyr. Mae'r gydberthynas agos yn sicrhau bod y plant cyn ysgol yn ymgyfarwyddo â bywyd yr ysgol yn hawdd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

- Mae'n rhaid atgoffa'r plant hŷn i olchi eu dwylo cyn bwyta byrbrydau;
- Mae'n rhaid sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau'r ymarferwyr mewn perthynas ag addysgu, dysgu a chynnal gweithgareddau hamdden yn glir.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau yn dilyn gwasanaeth gofrestru. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 19 Rhagfyr 2019 rhwng 10:30 a 13:15, ac eto i roi adborth ac arsylwi ar y plant ar 9 Ionawr 2020 rhwng 14:30 a 16:30.

Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau;
- arsylwi ar arferion, a'r rhyngweithio rhwng yr ymarferwyr a'r plant;
- siarad â'r plant, rhieni, pum ymarferydd, y person â chyfrifoldeb a oedd yn bresennol a'r person cofrestredig;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir;
- cyflwyno ein canfyddiadau i'r person â chyfrifoldeb.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Unigolyn Cyfrifol | Timothy Newbould |
| Person â chyfrifoldeb | Sandra Williams<br>Angela Morgan |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 19 |
| Ystod oedran y plant | 2 – 11 oed |
| Oriau agor | 08:00 – 18:00 |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Saesneg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad cyntaf ers cofrestru |
| Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn | 19 Rhagfyr 2019 a 9 Ionawr 2020 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg pobl/plant sy'n defnyddio ei wasanaeth neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes gofal cymdeithasol. |
| Gwybodaeth Ychwanegol: | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/03/2020